

Telerau ac Amodau - Trwydded Parcio Ymwelwyr

1. Rhaid i'r ymgeisydd am Drwydded Parcio Ymwelwyr fod **yn byw** yn un o'r cyfeiriadau sydd wedi eu rhestru ar www.gwynedd.llyw.cymru/trwyddedparciotrigolion
2. I gadarnhau bod yr ymgeisydd am Drwydded Parcio Ymwelwyr yn byw yn y cyfeiriad sydd wedi ei nodi ar y ffurflen byddwn yn gwirio'r wybodaeth yn erbyn y gofrestr etholwyr lawn. Efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol os nad ydi'r enw / cyfeiriad yn cyd-fynd â'r wybodaeth yr ydym ni yn ei ddal.
3. Mae Trwyddedau Parcio Ymwelwyr yn cael eu gwerthu mewn llyfr o 10.
4. Mae'n bosib prynu hyd at **5** llyfr ar y tro.
5. Bydd pob trwydded yn ddilys am 24 awr yn unig.
6. Dim ond os bydd y drwydded wedi'i chwblhau'n gywir y bydd yn ddilys
7. Rhaid arddangos y drwydded ar ffenestr flaen y cerbyd, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn weladwy o'r tu allan. Mae peidio ag arddangos y drwydded yn drosedd ac efallai y byddwch yn derbyn Rhybudd Tâl Cosb.
8. Dim ond o fewn yr ardal a nodir ar y tocyn y mae'r drwydded yn caniatáu i chi barcio a rhaid i bob cerbyd cael ei barcio yn gyfochrog ag ochr y ffordd.
9. Nid yw'r drwydded yn gwarantu y bydd lle parcio ar gael i chi, nac yn rhoi hawl agored i le parcio.
10. Ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy na 5.25m o hyd. Mae angen esgusodeb parcio i barcio cerbydau mwy o fewn yr ardal gyfyngedig.
11. Ni fydd gan y Cyngor unrhyw atebolrwydd pe byddai unrhyw gerbyd neu'i offer yn cael ei ladrata neu ddifrodi mewn lle parcio.
12. Gall swyddogion yr heddlu neu swyddogion gydag awdurdod y Cyngor ddiddymu hawl i ddefnyddio manau parcio.
13. Gall unrhyw wybodaeth ffug neu anghywir annilysu Trwydded parcio Ymwelwyr.
14. Yn unol â'r Rheoliadau Gwerthu Pellter mae gennych saith diwrnod gwaith o dderbyn y telerau ac amodau i ganslo'r archeb. Bydd rhaid dychwelyd y tocyn parcio cyn y bydd ad-daliad yn cael ei roi. Ar ôl saith diwrnod gwaith, ni roddir ad-daliad.